

## ❖ YR ADFENT - DECHRAU BLWYDDYN NEWYDD

**Darllen: Rhufeiniaid 13:12**

Yng nghalendr y Cristion mae hi'n ddechrau blwyddyn newydd – y pedwar Sul cyn Gŵyl y Nadolig. Ond nid paratoad ar gyfer Gŵyl y Geni ydi'r Adfent yn unig. Mae i'r cyfnod hwn ei nodweddion arbennig ei hun, gyda phlethwaith cyfoethog o wahanol themâu. Fel tymor y Grawys, mae'n gyfnod o edifeirwch, sef cyfnod o baratoad mewnlol ar gyfer Gŵyl yr Ymgawdoliad a chyfnod o holi'n hunain am ein camau dros y flwyddyn a aeth heibio. Prin y cawn gyfle i bwysu a mesur ein camau a chymryd golwg fanwl ar ein bywydau. Felly dyma gyfle o'r newydd. Mae'n gyfle, fel ar ddechrau blwyddyn, i edrych yn ôl ac edrych ymlaen. Ond y mae themâu'r Adfent yn rhoi cyfle i ni ganolbwyntio ar benawdau penodol. Penawdau'r wythnosau sy'n arwain at y Nadolig yw: marwolaeth, barn, nefoedd ac uffern. Pa bryd y buoch chi'n myfyrio ar y rhain o'r blaen, tybed?

Mae themâu a darlenniadau tymor yr Adfent yn baratoad ar gyfer yr Ail Ddyfodiad wrth gofio hefyd am ddyfodiad cyntaf Iesu ar y Nadolig. Mae'r darlenniadau yn ein hatgoffa o ddyfodiad cyntaf Iesu fel Gwardwr, ond maent hefyd yn cyfeirio at ei ail ddyfodiad fel barnwr. Mae llawer o draddodiadau wedi datblygu yn sgil tymor yr Adfent. Mewn rhannau o Loegr byddai merched tlawd yn cerdded o gwmpas gyda 'delweddau'r Adfent', sef dwy ddol wedi'u gwisgo, un i gynrychioli Iesu a'r llall i gynrychioli'r Forwyn Fair. Byddai disgwyl i'r bobl a ddeuai i gyswllt â'r gwragedd oedd yn cario'r doliau roi dimai iddynt, a byddai anlwc yn dod ar yr aelwydydd lle nad oedd croeso i'r gwragedd hyn. Yn Normandi yn ystod tymor yr Adfent, byddai ffermwyr yn llogi bechgyn dan ddeuddeg oed i redeg trwy'r caeau a'r perllannau gyda ffaglau i losgi'r gwellt er mwyn diddymu'r creaduriaid gwyllt fyddai'n gwneud niwed i'r cnydau.

Yn ein dyddiau ni, daeth calendr yr Adfent yn boblogaidd, gyda'i ffenestri i'w hagor cyn Gŵyl y Nadolig. Mae'n siŵr fod hyn yn cadw'r plant yn ddiddig wrth iddyn nhw baratoi ar gyfer yr ŵyl. Mae canhwyllau i'w goleuo – pedair i gynrychioli'r pedwar Sul cyn y Nadolig, a'r gannwyll ganol i'w goleuo ar y diwrnod mawr, dydd Nadolig ei hun. Mewn rhai eglwysi rhoddir enwau penodol ar y canhwyllau. Mae'r darlenniadau ar gyfer y Sul cyntaf yn cyfeirio at hynafiaid yr Hen Destament, ac felly gelwir canwyll y Sul hwnnw yn Gannwyll Gobaith. Cyfeirir yn narlenniadau'r ail Sul at ddatganiadau'r proffwydi am ddyfodiad Iesu, ac felly dyma Gannwyll y Proffwydi. Mae darlenniadau'r trydydd Sul yn cyfeirio at ddyfodiad Ioan Fedyddiwr, ac felly dyma Gannwyll Llawenydd. Ar y pedwerydd Sul, y Sul cyn y Nadolig, mae'r darlenniadau'n cyfeirio at gyfarchiad yr angel Gabriel a'i neges i Fair. Gelwir y gannwyll hon yn Gannwyll yr Angel. Y bumed gannwyll, a gyneuir fel arfer Noswyl y Nadolig, yw Cannwyll Crist.

Un o emynau'r Adfent yw emyn Lladin o'r ddeunawfed ganrif a gyfieithwyd i'r Gymraeg gan J. D. Vernon Lewis (1879–1970), '*Veni Immanuel*', 'O tyred di, Emanwêl, a datod rwyau Isrâel', gyda'r byrdwn 'O cân, O cân: Emanwêl ddaw atat ti, O Isrâel' (rhif 432 yn *Caneuon Ffydd*). Un arall o emynau'r Adfent yn emyniadur yr Eglwys Esgobol yw 'Wele'n dyfod ar gymylau / Farnwr dyn a brenin nef', sy'n cyfleu neges yr Adfent o farn ac ailddyfodiad Iesu. (*Emynau'r Llan*, rhif 24). Cenir hwn fel arfer ar y dôn fawreddog 'Helmsley'.

**Myfyrdod pellach:**

Pa mor bwysig ydi paratoi ein hunain ar gyfer y Nadolig?

Pa mor aml fyddwch chi'n trin a thrafod pynciau mawr yr Adfent – marwolaeth, barn, nefoedd ac uffern?